Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr

Caneuon Ffydd: Rhif 758

Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr
heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr,
am law fy Ngheidwad y diolchaf i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

Pan fyddo beichiau bywyd yn trymhau
a blinder byd yn peri im lesgáu,
gwn am y llaw a all fy nghynnal i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

Pan brofais archoll pechod ar fy nhaith
a minnau'n ysig ŵr dan gur a chraith,
ei dyner law a'm hymgeleddodd i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

A phan ddaw braw yr alwad fawr i'm rhan
a'r cryfaf rai o'm hamgylch oll yn wan,
nid ofnaf ddim, ei law a'm tywys i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

JOHN ROBERTS, 1910 – 84

MYFYRDOD

Mynegi profiad a wna John Roberts, Llanfwrog. Cawn glywed am ei brofiad o agosrwydd Duw ato ar hyd pob cam o daith bywyd. Cawn ein cymell i rannu yn ei brofiad a rhoi diolch am 'law fy Ngheidwad . . . a'i gafael ynof er nas gwelaf hi'. Mae'r cyferbyniad yn un effeithiol wrth iddo gyfeirio at law ei Geidwad yn ei gynnal a'i ymgeleddu a'i dywys, hyn i gyd er y ffaith na ellid ei gweld hi trwy lygad naturiol. Ond o edrych trwy lygad ffydd y mae presenoldeb y llaw i'w weld yn eglur ddigon. Peth felly, yn wir, ydy ffydd, ac mae diffiniad awdur y Llythyr at yr Hebreaid ohoni yn un

sy'n crynhoi llawer: 'Y mae ffydd yn warant o bethau y gobeithir amdanynt, ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld' (Heb.11:1). Yn wir, mae'r bennod hon yn y llythyr at yr Hebreaid yn olrhain hanes y rhai sydd wedi gweithredu trwy ffydd yn yr Hen Destament, pob un ohonynt yn ymddiried yng ngallu Duw i'w cynnal nhw ac i gyflawni ei addewidion iddyn nhw. Dynion a merched cyffredin ddigon y sonnir amdanyn nhw, ond a wnaethpwyd yn anghyffredin trwy eu ffydd a'u hymddiriedaeth yn Nuw.

Mae yna hanes bendigedig i'w gael yn 2 Brenhinoedd 6: 15–17, sydd ymhlyg ym mhrif rediad yr hanes am Eliseus y proffwyd. Mae gwas Eliseus yn codi un bore ac yn gweld llu o filwyr brenin Syria o gwmpas y pentref roedden nhw'n aros ynddo, ac yn meddwl yn naturiol ei bod hi ar ben arnyn nhw. Ond mae Eliseus, ar ôl cyhoeddi wrtho, "Paid ag ofni; y mae mwy gyda ni nag sydd gyda hwy", yn gweddïo wedyn ar i'r gwas gael prawf o hynny trwy lygaid ffydd, '"Arglwydd, agor ei lygaid, iddo weld."' Y fath galondid a gafodd pan agorodd Duw ei lygaid. 'Ac yna fe welodd y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd o gwmpas Eliseus.'

O ymddiried yn Nuw, trwy ffydd fe allwn ninnau weld, y llaw sy'n ein cynnal ac, yng nghanol trallodion a brwydrau bywyd, bod 'mwy gyda ni nag sydd gyda nhw'. Gŵyr yr emynydd, o fod wedi profi cynhaliaeth ei Geidwad ar hyd taith bywyd, y bydd hefyd gydag ef 'pan ddaw braw yr alwad fawr i'm rhan', oherwydd fe fu farw'r Ceidwad hwn a chael ei atgyfodi. Trwy ffydd yr ydym yn credu ac yn dal gafael yn hyn, ac am iddo gael ei gyfodi bydd hefyd yn ein cyfodi ninnau, oherwydd, yng ngeiriau Paul: 'Y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno' (1 Cor. 15:20).

GWEDDI

Diolch iti, Arglwydd, am lygaid ffydd i weld bod dy law arnaf ac yn gafael ynof er nad ydw i'n ei gweld hi gyda'm llygaid naturiol. Helpa fi i aros yn dy law, gan y gwn mai yno mae heddwch a diogelwch i'w cael ac na fyddi di'n fy ngollwng byth. Yn enw fy Ngheidwad, Iesu Grist. Amen.